

Hydref 2016

## Croeso i Dîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru

Rydym ni'n falch o gyflwyno ein cylchlythyr cyntaf ynglŷn â Chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) ar gyfer De-ddwyrain Cymru. Byddwch chi'n ei gael yn rheolaidd o hyn ymlaen er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau newydd, arferion gorau a'r newyddion diweddaraf o bob cwr o'r rhanbarth!

Mae'r tîm newydd yn cynnwys (llun o'r chwith):

- ▶ Natalie Curtis – Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol
- ▶ Lisa Jones – Rheolwr Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol
- ▶ Amy Ryall – Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol
- ▶ Jan Harris – Swyddog Cyllid a Gwybodaeth

Rydym ni wedi ein lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond rydym ni'n gweithio gyda phob sector ar draws y De-ddwyrain i:

- ▶ Sicrhau bod gweithrediadau'n cydweddu â blaenoriaethau strategol y rhanbarth
- ▶ Darparu gwybodaeth, canllawiau a diweddariadau i bartneriaethau strategol allweddol
- ▶ Sicrhau bod gweithrediadau'n gweithio ar y cyd wrth ddatblygu ac wrth ddarparu er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn elwa i'r eithaf ar gronfeydd yr UE
- ▶ Nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau newydd
- ▶ Cefnogi gwaith monitro a gwerthuso'r rhaglenni ar draws y rhanbarth



## Cais am gynigion Ymchwil ac Arloesi

Yn eu digwyddiad gwybodaeth blynyddol ar 20 Hydref, cyhoeddodd WEFO gais am gynigion Ymchwil ac Arloesi newydd dan Amcan Penodol 1.2 Blaenoriaeth 1 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).

Mae WEFO yn chwilio am gynigion arloesol, arbenigol sy'n cefnogi gweithrediadau presennol. Dylai cynigion gynnwys trosi'n llwyddiannus brosesau ymchwil ac arloesi yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol gwell. Dylai sefydliadau gynllunio eu prosiectau fel nad ydynt yn fwy na thair blynedd o hyd.

Mae WEFO yn bwriadu ymrwymo'r rhan fwyaf o'r cronfeydd sy'n weddill ar gyfer Ymchwil ac Arloesi drwy'r cais hwn am gynigion, h.y. £35 miliwn ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a £10 miliwn ar gyfer Ddwyrain Cymru. Fel arfer, ni fydd WEFO yn gallu cefnogi 100% o gostau'r gweithgaredd arfaethedig, felly disgwylir i ymgeiswyr nodi cyllid cyfatebol.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion i WEFO yw 31 Ionawr 2017 a gall ymgeiswyr ddisgwyl ateb ar 31 Mawrth 2017 neu cyn hynny. Gellir dod o hyd i fanylion llawn ar wefan WEFO yma: [https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/Research\\_and\\_Innovation\\_Proposal\\_Guidance\\_CY-19-10-16.pdf](https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/Research_and_Innovation_Proposal_Guidance_CY-19-10-16.pdf)

## Diweddariad ar drefniadau pontio'r UE

Cyhoeddodd y Canghellor, Philip Hammond, ar 3 Hydref y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu gwariant ar gyfer yr holl brosiectau a ariennir gan gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a gaiff eu cymeradwyo cyn i'r DU adael yr UE.

Cyhoeddodd Theresa May, ar 2 Hydref, ei bod yn bwriadu sbarduno Erthygl 50 cyn diwedd mis Mawrth 2017, sy'n awgrymu y bydd y DU yn gadael yr UE erbyn diwedd mis Mawrth 2019, ond ar hyn o bryd mae sbarduno Erthygl 50 yn destun dyfarniadau gan yr Uchel Lys a'r Goruchaf Lys.

Croesawodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynglŷn â Chronfeydd Strwythurol: <http://gov.wales/newsroom/firstminister/2016/58646153/?skip=1&lang=cy>

Yn gryno, mae gennym ni fwy o eglurder yn awr nag oedd gennym ni yn ystod yr haf ynghylch y canlyniadau a'r effeithiau posibl ar gyfer prosiectau yng Nghymru a ariennir gan Ewrop, ond cynghorir bod prosiectau'n cadw cofnod o ddatblygiadau. Yn y cyfamser, bydd yn rhaid i ni flaenoriaethu ein holl ymdrechion ar gyfer cyflwyno'r prosiect gan lynu mor agos â phosibl wrth y proffil darpariaeth a gwariant, a manteisio i'r eithaf ar yr arian sydd ar gael i'r rhanbarth.

### Canllawiau Cymhwysedd Cyfranogwyr wedi'u diweddarau

Mae WFO wedi cadarnhau bod cyfranogwyr a fu'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ond sydd wedi newid i gael Lwfans Ceisio Gwaith cyn cymryd rhan mewn prosiect bellach yn gymwys am gymorth. Maen nhw wedi diweddarau eu canllawiau cymhwysedd yn ffurfiol er mwyn ystyried hyn. Gellir dod o hyd i'r ddogfen lawn yma <http://gov.wales/docs/wefo/publications/161025-poverty-indicators.pdf>.

Bydd y newid hwn yn caniatáu i brosiectau gefnogi cyfranogwyr yr ymddengys fel arall eu bod yn syrthio drwy'r rhwyd o ran y ddarpariaeth, ac felly caiff ei groesawu, gan y rhanbarth gan y bydd yn mynd i'r afael â mater y mae llawer o bobl wedi'i godi.

### Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol

Lansiwyd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol 2016 ar 13 Hydref 2016 gan Julie James, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth. Bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn gweithio gyda thîm cydgysylltu'r bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau i sicrhau bod prosiectau'n cefnogi naw blaenoriaeth allweddol y cynllun. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod cyfeiriad strategaethau sgiliau yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion parhaus De-ddwyrain Cymru o ganlyniad i dystiolaeth gan weithrediadau ar lawr gwlad.

Dyma'r blaenoriaethau rhanbarthol strategol a'r themâu trawsbynciol a nodir:

1. Datblygu Economaidd
2. Ymgysylltu â Chyflogwyr
3. Busnesau bach a chanolig ac arbenigedd
4. Llwybrau hyblyg er mwyn sicrhau darpariaeth ac achrediad arbenigol
5. Entrepreneuriaid
6. Gyrfaoedd, ysgolion a chyfleoedd
7. Buddsoddi, cadwyni cyflenwi a chyflogaeth leol
8. Cefnogi cynhwysiant
9. Cefnogi prosiectau arfer gorau fel enghreifftiau ar gyfer strategaeth olyniaeth

Mae copi o'r cynllun ar gael yn <http://www.lskip.cymru/default.aspx> ynghyd â chopïau o gyflwyniadau o'r digwyddiad lansio.



## Horizon 2020

Horizon 2020, sydd werth €77 biliwn (tua £60 biliwn), yw rhaglen ymchwil ac arloesi fwyaf erioed yr UE, ac mae hi'n un o nifer o raglenni a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd (h.y. cyflwynir ceisiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd a chânt eu cymeradwyo ganddo hefyd).

Mae Horizon 2020 yn canolbwyntio ar ragoriaeth mewn gwyddoniaeth, arweinyddiaeth ddiwydiannol a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Ei nod yw sicrhau bod cenhedloedd yr UE yn cyflawni gwyddoniaeth o safon fyd-eang, yn cael dymchwel rhwystrau i arloesi a'i gwneud hi'n haws i'r sectorau cyhoeddus a phreifat ledled yr UE gydweithio ym maes ymchwil ac arloesi.

Ar ôl sicrhau mwy na €50m yn barod, mae Horizon 2020 yn darparu cyfleoedd gwirioneddol i fusnesau a phrifysgolion yng Nghymru i fod ar y blaen o ran ymchwil ac arloesi, ac i gydweithio â sefydliadau blaenllaw ar draws Ewrop.

Mae Horizon 2020 yn 'agored ar gyfer busnes', ac mae'r dyfarniadau a wnaed tra bo'r DU yn rhan o'r UE wedi'u gwarantu gan Drysorlys y DU. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi'i gwneud hi'n glir na wahaniaethir yn erbyn sefydliadau Cymru mewn unrhyw ffordd.

Mae Uned Horizon 2020 y Llywodraeth ar gael i gefnogi pob sefydliad yng Nghymru sy'n gwneud cais am gyllid ymchwil ac arloesi gan yr UE, neu sy'n ystyried gwneud cais. Mae'n gweithio'n agos â phartneriaid ar lefel Cymru, y DU a'r UE i gydgyssylltu a hwyluso'r amrywiaeth eang o gymorth a chyngor sydd ar gael er budd sefydliadau yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan yr Uned (<http://gov.wales/funding/eu-funds/horizon2020/?skip=1&lang=cy>) gan gynnwys enghreifftiau o brosiectau a gefnogir yn rhan o Horizon 2020 a sut y gallwch chi gael cyllid ar gyfer y costau sy'n rhan o ddatblygu cais (Cynllun SCoRE Cymru).

## Digwyddiadau sydd i ddod

- ▶ Cynhelir cyfarfod ynglŷn â Blaenoriaeth 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar 15 Rhagfyr
- ▶ Bydd 3SET yn cynnal digwyddiadau rhanbarthol ym mis Rhagfyr a chaiff y digwyddiad yn y De-ddwyrain ei gynnal ar 12 Rhagfyr yn Sefydliad y Glowyr Llanhilledd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn <https://www.eventbrite.co.uk/e/employability-and-skills-in-wales-south-wales-regional-event-tickets-29014268458>
- ▶ Cynhelir y cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen nesaf ar 2 Rhagfyr
- ▶ Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – mae'r Comisiwn Twf a Chystadleuaeth i fod i gyhoeddi ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2016.